**<u>Rhestr o’r Termau</u>** - **<u>Rhaglen Datblygu Gwledig</u>**

**Cyffredinol**

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Mesur | Cyfres o weithrediadau sy'n cyfrannu at un neu fwy o flaenoriaethau'r Undeb ar gyfer datblygu gwledig. |
| Blaenoriaeth | Mae chwe blaenoriaeth polisi Datblygu Gwledig (amcanion penodol) sy'n darparu'r sail ar gyfer cyflwyno cefnogaeth gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) i ardaloedd gwledig. Rhennir blaenoriaethau'r Undeb ymhellach yn 'Feysydd Ffocws' manwl. |
| Maes Ffocws | Mae blaenoriaethau'r Undeb ar gyfer Datblygu Gwledig wedi’u rhannu’n feysydd ymyrraeth penodol, a elwir yn Feysydd Ffocws. Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn nodi targedau meintioledig yn erbyn Meysydd Ffocws dethol, yn amlinellu'r Mesurau a’r cyllid a ddyrannwyd iddynt a fydd yn cael ei ddefnyddio i gyrraedd y targedau hyn. |
| Gweithrediadau | Cyfrif o'r Gweithrediadau a gymeradwywyd ar lefelau Rhaglen, Blaenoriaeth a Meysydd Ffocws. Diffinnir gweithrediad fel prosiect, contract, cam gweithredu neu grŵp o brosiectau a ddewisir gan awdurdodau rheoli'r rhaglenni dan sylw, neu sydd o fewn eu cyfrifoldeb, sy'n cyfrannu at amcanion blaenoriaeth neu flaenoriaethau. |

**Ariannol**

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Dyraniad | Y swm o arian sydd ar gael o dan y Rhaglen, Blaenoriaeth neu Faes Ffocws y gellir ei ddyfarnu i Weithrediadau. |
| Wedi’i neilltuo | Y swm o arian a gontractiwyd i Weithrediadau a gymeradwywyd o dan y Rhaglen, Blaenoriaeth neu Faes Ffocws am gyfnod y Gweithrediad hwnnw. |
| Gwariant | Y cyllid a dalwyd hyd yma i Weithrediadau a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. |

**Dangosydd**

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Allbynnau | Mae dangosyddion allbwn yn ymwneud â gweithrediadau a gefnogir. Ystyrir allbwn fel yr hyn sy’n cael ei gynhyrchu / ei gyflenwi'n uniongyrchol trwy weithrediad, wedi'i fesur mewn unedau corfforol neu ariannol. Caiff allbynnau eu mesur ar lefel y bobl a gefnogir, yr endidau a gefnogir, y nwyddau a ddarperir neu’r wasanaethau a gyflenwir. |
| Targed | Y lefel cyflawni a gytunwyd ar gyfer dangosyddion allbwn fel y nodir yn y Rhaglen Weithredol |

| Term | Diffiniad |
| --- | --- |
| Rhagolwg y Prosiect | Targed wedi'i osod yn erbyn y dangosyddion allbwn ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy i'w cyflawni trwy gwblhau'r Gweithrediadau hynny. |
| Cyflawnwyd hyd yma | Y gwerth a adroddwyd yn erbyn dangosyddion allbwn trwy Weithrediadau cymeradwy erbyn pwynt penodol yn oes y Gweithrediadau. Mae'r pwynt hwn mewn amser yn amrywio ar gyfer pob Gweithrediad ac mae'n ymwneud â chyfnod amser y cais awdurdodedig mwyaf diweddar. |